

Eisteddfod Penrhyn-coch 2018

Cystadleuaeth Rhif 3: Englyn Ysgafn - Hysbyseb

Dau englyn ysgafn ddaeth i law. Mae englyn SIOPWR yn hysbyseb dda iawn, ond mae ambell wendid. Nid yw'r drydedd linell yn gywir - 'Mynna getyn a gateux' - mae angen ateb yr 'm' yn 'Mynna' yn ail hanner y llinell. Nid wyf yn gwybod beth yw ystyr 'po' chwaith. Rhyw nwydd nad wyf yn gyfarwydd ag e mae'n rhaid!

Mae englyn y DYN SWIL yn gywir, er y byddai rhai puryddion (nid fi!) yn anesmwytho o glywed y llusg wyrddro yn y llinell gyntaf. Mae'n awgrymog iawn, dwi'n siŵr y cytunwch chi! Mae'n gynnwl hefyd - ni chawn wybod beth yw'r 'nwyddau 'mae'n eu haddo' - tatws, afalau, powdwr golchi, sanau - pwy a wŷr? Gallwn ddychmygu fodd bynnag. Da hefyd yw 'draw yr af i weld ryw dro'. Dyn swil yw e wedi'r cwbl! Am englyn cynnil ac awgrymog, DYN SWIL sy'n mynd â hi.